

# Ysgol Gymraeg Blaendulais

*Gyda'n gilydd, cerddwn ymlaen Together step by step, hand in hand*

# Croeso i Ysgol Gymraeg Blaendulais

## Rhagair: Kathryn Penhale, Headteacher

Rwy'n  falch iawn i'ch croesawu i'n hysgol fendigedig ac yn hollol hyderus y byddwch chi'n  dwlu arni cymaint â ni.

**Sylfaen gadarn**

Yn Ysgol Gymraeg Blaendulais rydym am fagu plant

Hyderus,
Annibynnol,
Parchus,
Uchelgeisiol,
Sy'n barod i lwyddo

Ein nod yw darparu sylfaen ddysgu gadarn mewn amgylchedd sy'n hybu llwyddiant i bob unigolyn . Rydym yn cynnig addysg ddwyieithog ochr yn ochr ag amrywiaeth o brofiadau sy'n ehangu'r gorwel. Hyrwyddwn yn gryf amgylchedd o barch ac hunan-werth wrth lunio'r dyfodol gyda'n gilydd.

**Tîm gwych**

Mae gan Ysgol Gymraeg Blaendulais dîm o staff cyfeillgar, gofalgar a gweithgar.  Mae'r ysgol wedi ymrwymo'n llwyr i ddatblygiad proffesiynol parhaus er mwyn galluogi'r holl staff i gyflawni eu rolau'n effeithiol. Mae pob aelod o staff yn aelod gwerthfawr o'r tîm ac mae ganddynt rôl bwysig i'w chwarae wrth lunio dyfodol ein disgyblion.

**Ein nod yw anelu at sicrhau bod:**

- pawb yn magu balchder yn yr iaith Gymraeg, ein diwylliant a'n cenedl
- amgylchedd cynnes, croesawgar a chefnogol lle mae ein disgyblion yn mwynhau gweithio a dysgu gyda'i gilydd.
- pob disgybl yn cael cyfle i gyrraedd ei lawn botensial, yn gymdeithasol, yn gorfforol, yn ysbrydol a moesol
- plant yn teimlo'n ddiogel fel eu bod nhw'n gallu mentro, heb ofni gwneud camgymeriadau
- llais y disgybl yn gryf a bod cyfraniad pob unigolyn yn cael ei barchu
- unigolion yn datblygu'r sgiliau a'r gwerthoedd fydd yn sylfaen yn eu bywydau tu hwnt i addysg.
- Partneriaeth cryf rhwng yr ysgol, y cartref a'r gymuned

**Partneriaeth rhieni**

Rhan bwysig iawn arall o'n hysgol yw chi, y rhiant! Fel y gwelwch, wrth ddarllen y straeon rhieni a disgyblion o fewn y prosbectws hwn, rydych chi a'ch plentyn yn bwysig iawn i ni. Rydym yn hyrwyddo'r cysylltiad rhwng yr ysgol a'r rhiant ac yn gweithio'n galed iawn i'ch cynnwys chi ym mhob cam o amser eich plentyn yma...a chynyddu mwynhad eich plentyn o ddysgu.

**Dewch i weld ni**

Dewch i edrych o gwmpas! Gobeithio bod ein prosbectws yn rhoi cipolwg a dealltwriaeth i chi o'n nod o ddarparu cwricwlwm cyffrous sy'n ysgogi meddyliau ifanc. Byddem yn falch iawn o'ch croesawu i'n hysgol. Ffoniwch swyddfa'r ysgol ar 01639 700 342 i drefnu ymweliad a gweld pam fod ein hysgol mor arbennig.











**Athrawes ysgol gynradd yw Allison Griffiths, felly roedd dewis yr ysgol iawn i'w merched yn benderfyniad anodd .Ar ôl ymweld ag YGG Blaendulais, gwnaeth ei meddwl i fyny yn gyflym.**

Mae Franci-Lee ym Mlwyddyn 6 a Mali-Hâf ym Mlwyddyn 2 yn YGG Blaendulais

**Cychwyn yn iawn**

Fel athrawes ysgol roedd Allison yn ystyried yn gryf i'r merched gael eu haddysgu lle mae'n gweithio ond roedd gormod o bethau cadarnhaol i'w hanwybyddu yn YGG Blaendulais. "O'r diwrnod cyntaf roedd y ddwy ferch wrth eu bodd yn mynd i'r ysgol. Athrawes ysgol ydw i fy hun felly roedd yn benderfyniad anodd. Roeddwn i eisiau iddo fod yn iawn. Roeddwn yn awyddus iddynt fynychu ysgol Gymraeg ac i allu parhau â'r cyfeillgarwch ac agosatrwydd a gawsant gan y cylch chwarae, daeth YGG Blaendulais yn ddewis amlwg," meddai Allison.

**Croesawgar a chefnogol**

Pan ymwelodd Allison ag YGG Blaendulais am y tro cyntaf cafodd argraff gyntaf hyfryd a dim ond mewn diolchgarwch ac edmygedd y mae ei theimladau tuag at yr ysgol wedi cynyddu. "Ar ôl ymweld â'r ysgol am y tro cyntaf fe ges i'r teimlad croesawgar yna a dyw hynny ddim wedi newid. Dydw i ddim yn mynd i'r ysgol yn aml y dyddiau hyn ond pryd bynnag mae gen i gysylltiad â'r ysgol mae fel bod yn rhan o'r teulu, rwy'n teimlo'n gartrefol yno. Mae tua cant o blant yn yr ysgol a gall y plant fynd o'r meithrin yr holl ffordd i Flwyddyn 6. Mae'r plant i gyd yn adnabod ei gilydd. Mae fy hynaf yn aml yn dod adref yn dweud wrthyf am y plant iau, gan eu bod i gyd yn cael cyfleoedd i chwarae gyda'i gilydd," meddai Allison.

**Hyder i symud ymlaen**

Mae Franci-Lee yn gorffen ei chyfnod yn YGG Blaendulais ac mae gan bawb deimladau cymysg am symud i'r ysgol uwchradd. "Mae Franci-Lee yn caru YGG Blaendulais, mae hi wedi cael profiad mor hyfryd ac mae hi wedi derbyn gofal mor dda. Mae'n bryd symud ymlaen ac mae hi'n edrych ymlaen at yr ysgol uwchradd. Mae'r broses bontio wedi bod yn wych hyd yn hyn. Rwy'n teimlo ei bod hi'n fwy na pharod i fynd ond bydd yn emosiynol ar y diwrnod olaf hwnnw. Mae gan Franci-Lee berthnasoedd gwych gyda'r staff, maen nhw i gyd yn ei hadnabod ac yn ymddiried ynddi. Mae Franci-Lee wedi tywys ymwelwyr o amgylch yr ysgol a phethau bach fel hyn sy'n gwneud iddi deimlo ei bod yn cael ei gwerthfawrogi ac sy'n magu hyder.

Bydd yn gweld eisiau'r perthnasoedd arbennig hyn a'r plant eraill, ond mae hi'n fwy na pharod i gymryd y cam nesaf," meddai Allison.

**Deinosoriaid yn cymryd drosodd!**

Mae YGG Blaendulais yn gwneud dysgu yn hwyl ac mae ychwanegu diwrnodau arbennig a chael ymwelwyr i'r ysgol i gyd yn rhan o'u hymagwedd. "Nid oes byth unrhyw beth nad yw'r plant yn ei fwynhau gan fod popeth yn hwyl ac yn ymarferol. Fel athrawes dwi'n gwybod pa mor bwysig yw hynny, dyw'r plant ddim yn sylweddoli eu bod nhw'n dysgu ac yn amsugno popeth yn naturiol . naturiol . Thema Deinosor oedd ganddyn nhw ac roedd Mali-Hâf mor gyffrous, aeth â'i deinosoriaid i mewn o'r cartref fel y gwnaeth y plant eraill. Ymwelodd deinosoriaid a digwyddodd ar ei phen-blwydd felly roedd yn arbennig iawn, roedd wrth ei bodd. Cawson ni fel rhieni y cyfle i ymweld â'r ysgol ar ddiwedd y thema  i weld arddangosfa deinosoriaid gwych y dosbarth, mae'r ysgol bob amser yn croesawu cyfraniadau gan rieni," meddai Allison.

**Teulu ysgol**

Mae Allison yn teimlo'n rhan o deulu'r ysgol, mae'r ysgol wedi bod yno iddi hi a'r merched pan mae newidiadau annisgwyl wedi digwydd gartref. "Mae'r ysgol wastad wedi bod mor gefnogol; mae pawb wedi bod yn ffantastig. Maen nhw yno ar gyfer y newidiadau mawr mewn bywyd a'r holl bethau bach, dyna sy'n ei wneud yn arbennig ac yn gwneud i chi deimlo'n rhan o deulu," meddai Allison.

**Mae'r plant yn dweud:**

Dywed Franci-Lee: "Rwyf wrth fy modd yn bod yn rhan o'r teulu."

Dywed Mali-Hâf: "Rwyf wrth fy modd yn gwneud fy heriau yn y dosbarth."

# Ymgartrefu a'n cwricwlwm ysgol

## Oriau ysgol

Mae'r diwrnod ysgol i bawb yn dechrau am 8.50yb. Mae plant y Meithrin yn gorffen am 11.50yb, Derbyn , Blwyddyn 1 a 2 yn gorffen am 3.15yp a Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 yn gorffen am 3.20yp.

### Gwisg ysgol

Ein gwisg ysgol yw crys-t polo gwyrdd, crys chwys glas tywyll neu gardigan, trowsus, sgert neu diwnig glas tywyll ac esgidiau glas tywyll/du. Credwn fod ein gwisg ysgol yn syml ac ymarferol a gellir prynu eitemau sy'n dwyn logo'r ysgol o Siop Nia yn y pentref.

### Bwyd Ysgol

Mae pob disgybl, o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6, yn hawlio'n rhad ac am ddim pryd o fwyd maethlon y dydd. Fel arall, gall rhieni ddarparu pecyn bwyd. Mae'n bwysig nodi ein bod yn ysgol ddi-gnau, ac felly ni chaniateir bwydydd sy'n cynnwys cnau o unrhyw fath. . Mae'r bwydlen yr ysgol yn amrywiol a gellir ei gweld ar wefan Castell-nedd Port Talbot.

### Clwb brecwast

Rydym yn cynnig Clwb Brecwast dyddiol yn ein ffreutur ysgol sy'n dechrau am 8:10yb. Mae'r clwb am ddim i bob disgybl llawn amser .

### 'Dyfodol llwyddiannus'

Mae gennym gwricwlwm pwrpasol ac unigryw sy'n seiliedig ar y pedwar diben. Mae'n sicrhau y bydd pob plentyn a pherson ifanc yn:

1. Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes.
2. Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.
3. Dinasyddion moesegol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd.
4. Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Ein 'cynefin' a'n diwylliant Cymreig sydd wrth wraidd ein cwricwlwm . Drwy ein hymagwedd ymholi at ddysgu rydym yn cynllunio ar gyfer datblygu a meithrin y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gwydnwch a dysgu gydol oes. Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ac mae'n bwysig i ni ein bod yn meithrin yn ein disgyblion yr ymdeimlad o falchder a pherthyn. Mae'n fraint i ni allu darparu addysg Cyfrwng Cymraeg i blant Cwm Dulais.













## Mae plant Charlotte Moses yn llawn hyder ac yn mwynhau dysgu'r Gymraeg yn YGG Blaendulais.

**Mae Hywel Moses yn 5 oed ac yn y Dosbarth Derbyn, Elena Moses yn 2 oed ac yn dechrau yn y Meithrin ym mis Medi, mae hi yn y Cylch yn y prynhawnau ar hyn o bryd.**

### Meithrin hyder i gyfathrebu

Mae plant yn tyfu ac yn newid yn rhyfeddol o gyflym a byth yn fwy felly pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf. "Mae'r plant wrth eu bodd yn mynd i'r ysgol ac wedi ymgartrefu'n dda. Roedd fy merch fach yn ei chael hi'n anodd pan oedden ni'n defnyddio lleoliad gwarchod plant, ond ers ymuno â'r Cylch mae hi wedi blodeuo. Mae hi'n fwy hyderus ac mae ei chyfathrebu wedi gwella cymaint. Mae Hywel wrth ei fodd â phopeth am yr ysgol ac mae gweld e yn magu hyder hefyd yn hyfryd," meddai Charlotte.

### Y cynhwysyn arbennig

Mae llawer o bethau a all wneud i ysgol deimlo'n arbennig. Yn YGG Blaendulais y staff sy'n gwneud gwahaniaeth ac yn creu amgylchedd dysgu meithringar. "Rwy'n meddwl bod y staff yn anhygoel gyda fy merch fach ac maent bob amser wedi bod gyda Hywel hefyd. Mae'r cyfathrebu yn ardderchog. Mae cyfarfodydd wyneb yn wyneb bob amser yn teimlo'n agored ac yn ddilys a chaiff llawer o wybodaeth a diweddariadau eu rhannu ar-lein fel y gallwn siarad am yr ysgol yn hawdd gartref. Mae'n golygu y gallwn ni helpu i baratoi'r plant ar gyfer yr hyn maen nhw'n ei wneud nesaf, beth i'w ddisgwyl a beth i edrych ymlaen ato sy'n eu helpu i deimlo'n gartrefol," meddai Charlotte.

### Dysgu Cymraeg i baratoi ar gyfer y dyfodol

Roedd Charlotte a'i gŵr yn awyddus i'w plant fynychu ysgol Gymraeg ei hiaith gan eu bod yn credu y byddai'n eu rhoi mewn sefyllfa dda i'r dyfodol. "Rydyn ni'n deulu Saesneg ei iaith ac mae Hywel nawr yn dod adref ac yn ein dysgu sut i siarad Cymraeg. Mae'n dysgu geiriau ac ynganiad inni sy'n hwyl i bawb. Mae'r Gymraeg yn rhan o'r cwricwlwm ac mae'r ysgolion Cymraeg wedi codi'n ddiweddar mewn poblogrwydd. Mae pobl eisiau cofleidio siarad Cymraeg a chael eu plant i ddysgu bod yn ddwyieithog. Dwi eisiau i fy mhlant allu siarad Cymraeg, oherwydd o brofiad dwi'n credu ei fod yn agor mwy o gyfleoedd iddyn nhw pan maen nhw'n hŷn," meddai Charlotte.



### Darganfod pethau newydd

Mae'n brofiad hyfryd i rieni pan fo plentyn yn gyffrous ac yn chwilfrydig am yr hyn y mae'n ei ddysgu yn yr ysgol. "Mae Hywel yn dysgu am lindys a gloÿnnod byw. Mae wrth ei fodd yn dysgu am anifeiliaid ac roedd wrth ei fodd yn dysgu am ddeinosoriaid yn arbennig. Daeth ymwelwyr i mewn i siarad â'r plant ac roedd yn wych, roedd y lluniau a rannwyd yn anhygoel," meddai Charlotte.

### Teulu estynedig

Mae Charlotte yn gwerthfawrogi'r ymdeimlad bod yr ysgol fel teulu estynedig , maen nhw bob amser yno i helpu. "Rwy'n edrych ymlaen at iddo gael yr hyder i fod oddi cartref ar y tripiau preswyl a mwynhau amser gyda'i ffrindiau. Ar ddechrau'r Meithrin roedd Hywel yn amharod i ymuno â gemau, yn enwedig os oedd yn meddwl y gallai golli. Roedd yn gwyro oddi wrth unrhyw gystadleuaeth. Pan wnes i ei godi gyda'i athrawes ddosbarth roedd hi'n synnu clywed am ei amharodrwydd oherwydd yn yr ysgol roedd yn ceisio ymuno mwy. Fe dderbyniodd hi'r hyn a ddywedais ac anogodd Hywel yn dyner i gymryd rhan a nawr does dim ei rwystro. Fe wnaethon nhw ei lywio i'r cyfeiriad cywir yn dyner, mae fel cael teulu estynedig yno i'n cefnogi," meddai Charlotte.

### Dathliadau a gwobrau

Mae YGG Blaendulais yn achub ar bob cyfle i atgyfnerthu ymddygiad a chyflawniadau da yn gadarnhaol, mae gwasanaethau rheolaidd a gwobrau yn y dosbarth yn boblogaidd gyda'r plant.

"Mae gan yr ysgol wasanaeth ar ddydd Gwener ac maen nhw'n cyflwyno gwobrau fel "Gweithiwr yr Wythnos". Mae Hywel wrth ei fodd yn dod adref gyda thystysgrif. Dyna'r peth cyntaf sy'n dod allan o'i fag bob amser. Mae'n cyfrif ei holl sticeri ac rydym yn cael ei adroddiad ysgol ar ddiwedd y flwyddyn sy'n wych i'w ddarllen a gweld ei gynnydd," meddai Charlotte.

### Mae'r plant yn dweud:

Dywed Hywel: "Rwyf wrth fy modd yn chwarae tu allan gyda fy ffrindiau."

# Cwricwlwm cyfoethog: teithiau, clybiau ac addysg gorfforol

## Teithiau ac ymweliadau

Yn ystod yr amser y mae'r plant gyda ni byddant yn ymwneud ag ystod o brofiadau diwylliannol trwy ymweliadau ag orielau celf, ymweld â chwmnïau theatr a gweithio gydag artistiaid, awduron, storïwyr neu artistiaid perfformio. Yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol rydym yn awyddus i hyrwyddo gweithgareddau awyr agored ac amgylcheddol. Rydym yn cynnig tripiau preswyl i ddisgyblion Blwyddyn 3 i 6 i lefydd megis Maes y Fron, Tregoyd , Llangrannog ac Abernant. Ein nod yw creu dinasyddion dwyieithog, cyfrifol.

## Clybiau

Rydym yn darparu clybiau gwahanol sy'n cynnwys clwb yr Urdd, clwb lliwio a lles meddwl, clwb rygbi a chlwb crosio.

## Addysg Gorfforol a Chwaraeon

Cymerwn ran weithgar yng ngemau chwaraeon yr ardal sy'n cynnwys rygbi, nofio, pêl droed, hoci a phêl-rwyd. Mae'r ysgol hefyd yn cymryd rhan mewn cystadlaethau athletau.













# Welcome to Ysgol Gymraeg Blaendulais

## Foreword: Kathryn Penhale, Headteacher

I'm very proud to welcome you to our wonderful school, and we are confident you will it as much as we do.

**Strong Foundation**

**At Ysgol Gymraeg Blaendulais our aim is to nurture:**

- Confident
- Independent
- Respectful
- Ambitious pupils

**Who are ready to succeed**

Our aim in Ysgol Gymraeg Blaendulais is to provide a firm learning foundation in an environment promoting success for every individual in the establishment. We offer a bilingual education alongside a variety of experiences that broaden horizons. We strongly promote an environment of respect and self-worth when constructing the future together.

**Great team**

Ysgol Gymraeg Blaendulais has a friendly, caring and hard-working staff team. The school is committed to continued professional development to enable all staff to carry out their roles effectively. Each member of staff is a valued member of the team and has an important role to play in shaping the future of our pupils.

**Our aim is to ensure that:**

- Everyone takes pride in the Welsh language, our culture and our nation
- It's a warm, welcoming and supportive environment where our pupils enjoy working and learning together.
- All pupils have the opportunity to reach their full potential, socially, physically, spiritually and morally.
- Children feel safe so that they can take risks, without fear of making mistakes.
- The pupil's voice is strong and that each individual's contribution is respected
- Individuals develop the skills and values that will underpin their lives beyond education.
- We have a strong partnership between school, home and community.

**Parent partnership**

Another very important part of our school is you, the parent! As you will see, by reading the parent and pupil stories within this prospectus, you and your child are very important to us. We champion the link between school and parent and work very hard to involve you in every step of your child's time here...and increase your child's enjoyment of learning.

**Come and visit**

Come and look around! I hope that our prospectus gives you an insight and understanding of our aim to provide an exciting curriculum that stimulates young minds. We would be delighted to welcome you to our school. Please call the school office 01639 700 342 to arrange a visit and see why our school is so special.









**Allison Griffiths is a primary school teacher, so it was a tough decision deciding which school to send her two girls to. On visiting YGG Blaendulais, her mind was easily made up.**

**Franci-Lee is in Year 6 and Mali-Hâf is in Year 2 at YGG Blaendulais**

### Starting right

As a school teacher Allison strongly considered the girls being taught where she works but there were too many positives to ignore at YGG Blaendulais. "From day one both girls loved going to school. I'm a school teacher myself so it was a tough decision. I wanted it to be right. I was keen for them to attend a Welsh language school and to be able to continue the friendships and familiarity they had from playgroup, YGG Blaendulais became the obvious choice," says Allison.

### Welcoming and supportive

When Allison first visited YGG Blaendulais she received a wonderful first impression and her feelings towards school have only grown in gratitude and admiration. "On first visiting the school I immediately got that welcoming feeling and that hasn't changed. I don't often get into school these days but whenever I do have contact with school it's like being part of the family, I feel at home there. There are roughly one hundred children at school and the children can go from nursery all the way to Year 6. The children all know each other. My eldest often comes home telling me about the younger children, as they all have opportunities to play together," says Allison.

### Confidence to move on

Franci-Lee is finishing her time at YGG Blaendulais and everyone has mixed feelings about the move to high school. "Franci-Lee loves YGG Blaendulais, she's had such a lovely experience and she's been so well looked after. It's time to move on and she is looking forward to high school. The transition process has been great so far. I feel she's more than ready to go but it will be emotional on that last day. Franci-Lee has wonderful relationships with the staff, they all know her and trust her. Franci-Lee has shown visitors around school and it is little things like that which make her feel valued and appreciated and that builds confidence. She will miss these special relationships and the other children, but she is more than ready to take the next step," says Allison.

### Dinosaur Take Over

YGG Blaendulais makes learning fun and adding special days and having visitors come into school is all part of their approach. "There's never anything the children don't enjoy as everything is made fun, hands on and practical. As a teacher I know how important that is, the children don't realise they're learning, they just soak everything up. They had a Dinosaur theme, Mali-Hâf was so excited, she took her dinosaurs in from home as did the other children. Dinosaurs visited and it took place on her birthday so it was extra special for her. At the end of the theme we were invited as parents to see her class' dinosaur exhibition, the school are always finding ways to go the extra mile and extend experiences for the children. There are constant celebrations and school is always welcoming of contributions from parents," says Allison.

### A school family

Allison feels part of the school family, school have been there for her and the girls when unexpected changes have happened at home. "School have always been so supportive; everyone has been fantastic. They're there for the big life changes and all the little things, it's what makes it special and makes you feel part of a family," says Allison.

### Children say:

Franci-Lee says: "I love being part of the family."

Mali-Hâf says: "I love doing my challenges in class."



# Settling in and our school curriculum

## School hours

The school day for all year groups starts at 8.50am. Nursery children finish at 11.50am, Reception and Years 1 and 2 finish at 3.15pm and Years 3, 4, 5 and 6 finish at 3.20pm.

### Uniform

Our uniform includes a green polo t-shirt, navy sweatshirt or cardigan , navy trousers,skirt or pinafore and navy/black shoes. We believe our uniform is simple and practical and can be purchased from Siop Nia in the village.

### Food in school

Every pupil, from Reception to Year 6, is entitled to a free daily nutritious meal at lunch time. Alternatively parents can provide a packed lunch.. It is important to note that we are a nut-free school, and all packed lunches must be nut-free. The school menu is varied and is available on the NPT school's website

### Breakfast Club

We offer a daily Breakfast Club in our school canteen that starts at 8:10am. It is free to all full time pupils for 30 minutes.

### 'Successful Futures'

We have a bespoke curriculum which is based on the four purposes, ensuring that all children and young people will be:

1. Ambitious, capable learners who are ready to learn throughout their lives.
2. Enterprising, creative contributors who are ready to play a full part in life and work.
3. Ethical, informed citizens who are ready to be citizens of Wales and the world.
4. Healthy, confident individuals who are ready to lead fulfilling lives as valued members of society.

At the heart of our curriculum is our 'cynefin' and Welsh heritage. Weekly we use the locality in our outdoor learning sessions. Through our enquiry approach to learning we plan for progression and develop and nurture the skills needed for lifelong learning and resilience. Welsh is the language of the school and it's important to us that we promote in our pupils a sense of pride and belonging .We are privileged to be able to provide a bilingual education for all children in the Dulais valley.











## Charlotte Moses' children are brimming with confidence and embracing their new learning of the Welsh language at YGG Blaendulais.

**Hywel Moses is 5 years old and is in the Derbyn Class, Elena Moses is 2 years old and will start in the Meithrin in September, she is currently in Cylch on an afternoon.**

### Building confidence to communicate

Children grow and change incredibly quickly and never more so that when they first start school. "The children love going to school and have settled in well. My little girl did struggle when we were using a childminding setting, but since joining Cylch she's come on leaps and bounds. She's more confident and her communication has improved so much. Hywel loves everything about school and seeing him grow in confidence too is delightful," says Charlotte.

### The special ingredient

There are many things that can make a school feel special. At YGG Blaendulais it is the staff that make the difference and create a nurturing learning environment. "I think the staff are incredible with my little girl and they always have been with Hywel too. Communication is excellent. Face to face meetings always feel open and genuine and lots of information and updates are shared online so we can talk about school easily at home. It means we can help prepare the children for what they're doing next, what to expect and what to look forward to which helps them feel settled," says Charlotte.

### Learning Welsh to prepare for the future

Charlotte and her husband were keen for their children to attend a Welsh speaking school as they believe it will stand them in good stead for the future. "We're an English-speaking family and Hywel is now coming home and teaching us how to speak Welsh. He's teaching us words and pronunciation which is fun for everyone. Welsh is part of the curriculum and the Welsh schools have risen recently in popularity. People are looking to embrace Welsh speaking and have their children learn to be bi-lingual. I want my children to be able to speak Welsh, as from experience, I believe it opens more opportunities for them when they're older," says Charlotte.

### Discovering new things

It's a lovely experience for parents when a child is excited and curious about what they're learning at school. "Hywel is learning about caterpillars and butterflies. He loves learning about animals and he especially loved learning about dinosaurs. Visitors came in to talk to the children and it was brilliant, the photos that were shared were incredible," says Charlotte.

### An extended family

Charlotte values the sense that being part of the school is like being part of an extended family, they're always there to help. "I'm looking forward to him having the confidence to be away from home on the residentials and enjoy time with his friends. At the start of Meithrin he was reluctant to join in with games, especially if he thought he might lose. He shied away from competition. When I brought it up with his class teacher she was surprised to hear about his reluctance as in school he was trying to join in more. She took on board what I said and gently encouraged Hywel to take part and now there's no stopping him. They gently steered him in the right direction, it's like having an extended family there to support us," says Charlotte.

### Celebrations and rewards

YGG Blaendulais takes every opportunity to positively reinforce good behaviours and achievements, regular assemblies and rewards in class are popular with the children.

"School has an assembly on a Friday and they present awards like "Worker of the Week". Hywel absolutely loves coming home with a certificate. It's always the first thing that comes out of his bag. He counts all his stickers and we get his school report at the end of the year which is great to read and see his progress," says Charlotte.

### Children say:

Hywel says: "I love playing outside with my friends."



# Enriched curriculum: trips, clubs and P.E

## Trips and visits

During the time that children are with us they will be involved in a range of cultural experiences through visits to art galleries, visiting theatre companies and work with artists, writers, storytellers or performance artists. As well as extra-curricular activities we are keen to promote open air and environmental activities. From Year 3 we offer residential trips to Call of the Wild, Tregoyd, Llangrannog and Abernant. Our aim is to create bilingual, responsible citizens.


## Clubs

We provide many clubs which include the Urdd club, Mindful art club, rugby club and crochet club

## P.E. and sport

We take an active part in the area's sports fixtures which include rugby , swimming, football, hockey and netball. The school also takes part in athletic competitions.











# Derbyniadau ... a chymryd rhan

## Derbyniadau

Y Cyngor yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr holl ysgolion a gynhelir yn y gymuned yn y Fwrdeistref Sirol. Fel awdurdod derbyn, y Cyngor sy'n pennu'r meini prawf a ddefnyddir wrth ddyrannu lleoedd mewn ysgolion cymunedol.

Mae ffurflenni cais ar gael gan yr Adran Derbyn i Ysgolion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

- Cyfeiriad: Swyddfa Derbyn i Ysgolion, Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot, SA13 1PJ.
- Ffôn: 01639 763580.
- E-bost: admissions@npt.gov.uk.
- Gwefan: www.npt.gov.uk/1347

**Gofal Plant Mudiad Meithrin**

Mae Mudiad Meithrin yn darparu gofal plant ardderchog bob prynhawn yng nghaban y Meithrin ar y safle. Mae hwn ar gyfer plant rhwng 2 a 4 oed ac yn rhedeg o 11:50yb i 3:10yp.

## Cymryd rhan

**Gwirfoddolwyr**

Rydym bob amser yn croesawu gwirfoddolwyr o'n hysgol a'r gymuned ehangach i helpu gyda gweithgareddau megis ymweliadau ysgol, ein sesiynau awyr agored wythnosol  neu gefnogi plant yn y dosbarth ayb.

**CRAFf**

Mae gennym CRAFf (Cymdeithas Rhieni ac Athrawon) gweithgar sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Mae'r CRAFf wedi darparu llawer o bethau ychwanegol er budd gan gynnwys llwybr ystwythder iard yr ysgol, cyfraniadau trafnidiaeth sylweddol, offer chwaraeon a  chyfresi darllen i enwi ond ychydig.

**Llywodraethwyr**

Mae Llywodraethwyr yr Ysgol yn cymryd diddordeb byw yn y plant a'r ysgol ac yn ymweld yn rheolaidd. Os hoffech chi fod yn llywodraethwr ysgol, gofynnwch yn swyddfa'r ysgol.

# Admissions... and getting involved

## Admissions

The Council is the admission authority for all community-maintained schools in the County Borough. As admission authority, the Council determines the criteria that will be applied when allocating places at community schools.

Application forms are available from the School Admissions Section, Neath Port Talbot County Borough Council:

- Address: School and Family Support Team, Port Talbot Civic Centre, Port Talbot SA13 1PJ
- Tel: 01639 763580
- Email: admissions@npt.gov.uk.
- Website: www.npt.gov.uk/1347

**Wraparound**

Mudiad Meithrin provide excellent wrap around child care every afternoon in the Nursery cabin. This is for children aged between 2 and 4 and runs from 11:50am to 3:10pm.

## Getting involved

**Volunteers**

We welcome volunteers from our school and the wider community to help with activities such as school visits, our weekly outdoor sessions or supporting children in class etc

**PTA**

We have an active CRAFf ( Parent-Teachers' Association) which meets regularly. The CRAFf have provided many 'extras' for the benefit of the children which include a school yard agility trail , substantial transport contributions, sporting equipment and reading schemes to name just a few.

**Governors**

School Governors take an active interest in the children and school and visit regularly. If you would like to be a school governor, please ask at the school office.

**Ysgol Gymraeg Blaendulais**
Penybanc, Seven Sisters, Neath, SA10 9AA
**Telephone:** 01639 700 342
**Email:** yggblaendulais@npt.school
**Website:** www.ygg-blaendulais.j2bloggy.com

Devised and produced by Stoneworks Education Ltd www.stoneworkseducation.co.uk

© Stoneworks Education Limited 2014-2024. All rights reserved.